**Bydd y mat hwn yn cefnogi'r defnydd effeithiol o fideo i fyfyrio ar addysgu.**
**Bydd yn ddefnyddiol i athrawon dan hyfforddiant, Mentoriaid, Cydlynwyr Ysgol a Thiwtoriaid Ymarfer. Gan adlewyrchu'n rheolaidd ar eich addysgu, efallai y byddwch yn deall yn well sut mae eich disgyblion yn dysgu ac yn ymateb i gyfarwyddyd.**
**Bydd gwerthuso beth sy'n gweithio a beth sydd angen ei wella yn eich helpu i wneud dewisiadau gwybodus i chi a'ch disgyblion.**

## Defnyddio IRIS Connect yn ddiogel

IRIS Connect yn llwyfan diogel, wedi'i amgryptio. Mae'n cydymffurfio â GDPR. Os hoffech roi gwybod i rieni / gwarcheidwaid bod IRIS Connect yn cael ei ddefnyddio ar gyfer recordio gwersi athrawon dan hyfforddiant, gallwch ddefnyddio'r llythyr yma: Adnoddau a hyfforddiant ysgolion partner | Y Brifysgol Agored yng Nghymru.
Bydd y nodwedd ddienw yn newid recordiadau i luniau llinell os oes angen er mwyn osgoi adnabod dysgwyr neu amgylcheddau.

## Sefydlu

Penderfynwch **beth** rydych chi am ei recordio ac am ba hyd – gwahanol gyfnodau o'r wers, ymgysylltu â gwahanol grwpiau o ddysgwyr, neu weithgareddau amrywiol.
Penderfynwch ar gyfer **pwy** rydych chi'n recordio a phwy fydd yn myfyrio ar y ffilm – chi eich hun, eich Mentor/Cydlynydd Ysgol, eich Tiwtor Ymarfer neu gyfoedion.
Gwnewch dreial – gwiriwch fod y ddelwedd yn glir a'r sain yn glywadwy.

**Ffilmio'r wers:**
- **Ble** fyddwch chi'n gosod y camera?
- **Pryd** fyddwch chi'n ei symud i leoliad arall os oes angen?
- **Pwy** fydd yn lleoli/symud y camera?

### Cyn
- A yw batri eich dyfais wedi'i wefru'n llawn?
- Cynlluniwch eich ffilmio – Beth? Pwy? Sut? Ble?
- Rhagrybuddio'r dysgwyr.
- Rhediad prawf – gwirio sain a delwedd.

### Yn ystod
- Lle bo'n briodol, symudwch y camera o gwmpas yr ystafell i ddal gwahanol agweddau ar y wers.
- Ar adeg briodol, gwiriwch fod y camera'n dal i recordio.

### Wedi
- Uwchlwythwch eich adnoddau ffilm a gwersi (gan gynnwys cynllun) i IRIS Connect – gwnewch yn siŵr ei fod wedi arbed popeth.
- Ychwanegwch eich sylwadau myfyriol personol.
- Rhannwch gyda'ch tiwtor ymarfer.

## Myfyrio ar ymarfer gydag IRIS Connect*

Unwaith y bydd y ffilm wedi'i rhannu trwy IRIS Connect, gellir defnyddio'r ffilm i gefnogi adfyfyrio. Gallwch:
- Defnyddio 'Insights' i ganolbwyntio ar rannau penodol o'r ffilm i fyfyrio ar agweddau ar addysgu – e.e. cwestiynu, ymddygiad, adborth.
- Myfyrio tra bo'r ffilm yn chwarae - bydd IRIS Connect yn rhoi stamp amser ar sylwadau ysgrifenedig.
- Gofyn gwestiynau am adrannau penodol o'r ffilm i annog myfyrdod dyfnach:
  *Ydych chi'n meddwl bod y dysgwyr yn glir am yr hyn y mae'n rhaid iddyn nhw ei wneud?*
- Myfyrio ar agweddau penodol o'r Cwricwlwm i Gymru.

*DEFNYDDIWCH FODEL MYFYRIO I GEFNOGI'R GWEITHGAREDD HWN

# Defnyddio myfyrdodau fideo yn ystod y Rhaglen TAR